HYDREF 2025

# PEN Y MYNYDD

Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd!





## Môr o Gymreictod yn y Memo

Ar ddiwrnod chwilboeth yng Ngorffennaf, cynhaliwyd ein Eisteddfod Ysgol yn Neuadd y Memo, y Barri. Daeth disgyblion a staff ynghyd i fwynhau ac i ddathlu ein Cymreictod, ein diwylliant a'n hunainiaeth ym mrwydr flynyddol y llysoedd! Roedd y tri llys yn eiddgar i gipio teitl Pencampwyr Eisteddfod 2025. Cafwyd amrywiaeth eang o gystadlaethau gyda llythrennol cannoedd o ddisgyblion yn perfformio ar y llwyfan. Un o'r eitemau llawn hwyl oedd sgets Blwyddyn 12 lle gwelwyd y disgyblion yn dynwared a thynnu coes athrawon mewn ysbryd digrif a charedig.

Cynhaliwyd seremoni Gadeirio, gyda Mabli Vartelaws o Flwyddyn 12 yn cipio'r gadair eleni. Roedd y corau'n ddiweddglo cyffrous, wrth i'r tri llys gystadlu'n ffyrnig yn canu Chwarae'n Troi'n Chwerw. Llys Mihangel ddaeth i'r brig.

Roedd tensiwn amlwg wrth i Mr Angell Jones gyhoeddi'r canlyniad terfynol. Llys Cadog oedd yn fuddugol a hynny o 1 pwynt yn unig! I gloi, cododd pawb ar eu traed i ganu'r anthem. Roedd y foment hon yn dystiolaeth glir fod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn dal i ffynnu yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.









## School Eisteddfod 2025

On a scorching July day, our School Eisteddfod was held at the Memo Arts Centre in Barry. Pupils and staff came together to enjoy and celebrate our Welshness, our culture, and our identity in the annual battle of the houses - all eager to claim the title of Eisteddfod Champions 2025.

There was a wide variety of competitions, with literally hundreds of pupils performing on stage. One of the most entertaining items was the Year 12 sketch, which humorously and kindly impersonated teachers, making everyone laugh.

A Chairing Ceremony was held, with Mabli Vartelaws from Year 12 winning the chair this year. The choirs provided an exciting finale, as the three houses fiercely competed by singing Chwarae'n Troi'n Chwerw. Mihangel were this year's winners.

There was clear tension as Mr Angell Jones announced the result. Llys Cadog were victorious – by just 1 point! To close, everyone stood to sing the anthem. This moment was clear evidence that the Welsh language and culture continue to thrive in Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.


## Newyddion o'r 6ed - Prif ddisgyblion a Swyddogion Bl 13

Llongyfarchiadau mawr iawn i Alys Evans ac Owen Weeks ar gael eu hethol yn Brif ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn hon. Yn ymuno â Alys ac Owen bydd Wil Thomas, Aled Phillips a Marged Evans fel Dirprwy Brif Ddisgyblion. Bydd y 5 yn arwain tîm cryf o dim llai na 40 o swyddogion Blwyddyn 13, sy'n anhygoel ac yn adlewyrchu ymrwymiad ein 6ed dosbarth i gymuned yr ysgol. Yn ogystal y criw arbennig yma fydd yn arwain Pwyllgorau'r disgyblion – Cymreictod, Cydraddoldeb, Ysgol Isaf, Eco ac Elusennol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw i gyd.

## News from the Sixth Form - Head Prefects and Year 13 prefects

A huge congratulations to Alys Evans and Owen Weeks on being elected as Head Pupils of the school for this year. Joining Alys and Owen will be Wil Thomas, Aled Phillips, and Marged Evans as Deputy Head Pupils. The five will lead a strong team of no less than 40, Year 13 prefects, which is fantastic and reflects the commitment of our sixth form to our school community. This strong team will also lead the pupil committees – Welshness, Equality, Lower School, Eco, and Charity. We very much look forward to working with them.





## Serennu yn Llangollen

Llongyfarchiadau mawr iawn i Ela Mai Williams a ddaeth i'r brig mewn dwy gystadleuaeth yn Eisteddfod Rhygwladol Llangollen eleni. Enillodd Ela gystadleuaeth Llais clasurol ifanc y dyfodol a Llais ifanc theatr Gerdd – tipyn o gamp ar y llwyfan Rhyngwladol.

## Star of the Stage in Llangollen

Huge congratulations to Ela Mai Williams who came out on top in two competitions at this year's Llangollen International Eisteddfod. She won the 'Young Classical Voice of the Future' competition and the 'Young Musical Theatre Voice' – quite an achievement on the international stage.



## Côr Ieuenctid Cymru

Hyfryd oedd gweld 6 o ddisgyblion yr ysgol yn rhan o Gôr Ieuenctid Cymru eleni. Yn dilyn cyfnod o ymarfer yn cawsant gyfle i berfformio mewn tair cyngerdd – Eglwys Gadeiriol Llanelwy, Sain Ffagan a Neuadd y Brangwyn Abertawe.

*"Roedd hi'n dipyn o brofiad cael bod yn rhan o'r côr yma am y tro cyntaf ac roedd rhaid dysgu llawer o ddarnau newydd mewn cyfnod byr, ond nes i fwynhau bob eiliad!"*

*Efan Vaughan, Blwyddyn 12.*

## Wales Youth Choir

It was fantastic to see six of the school's pupils taking part in the Welsh Youth Choir this year. After a period of rehearsals, they had the opportunity to perform in three concerts – at St Asaph Cathedral, St Fagans, and the Brangwyn Hall in Swansea.

*"It was quite an experience to be part of this choir for the first time, and we had to learn a lot of new pieces in a short time, but I enjoyed every moment!"*

*Efan Vaughan, Year 12*

## Mabolgampau YGBM 2025 – Jenner Park

Ar ddydd Iau, Gorffennaf 5ed, cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol ym Mharc Jenner. Daeth disgyblion Blwyddyn 7–10 a 12 ynghyd i gystadlu, gyda'r frwydr flynyddol rhwng y llysoedd yn ganolog i'r diwrnod.

Uchafbwynt y digwyddiad oedd ras y 1500m, sy'n agos iawn at gallon pawb. Mae gysatadleuaeth hon yn cael ei chynnal yn flynyddol, gyda phob disgybl yn cymryd rhan ac yn codi arian at elusen yr ysgol. Eleni, cefnogwyd Apêl Felindre, a llwyddwyd i godi swm sylweddol at yr achos teilwng hwn. Roedd yn hyfryd gweld staff a disgyblion Blwyddyn 12 yn rhedeg gyda disgyblion iau yr ysgol yn eu hannog, a'u cefnogi. Dyma enghraifft o werthoedd yr ysgol ar eu gorau: parch a dyfalbarhad, oll yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y diwedd, llys Illtud gipiodd y fuddugoliaeth, gan roi llawer o reswm i Mr Beynon i wenu!

## YGBM Sports Day 2025 – Jenner Park

On Thursday, July 5th, the school's Sports Day was held at Jenner Park. Pupils from Years 7–10 and Year 12 came together to compete, with the annual house battle at the heart of the day.

The highlight of the event was the 1500m race, which is very close to all our hearts. This competition takes place every year, with every pupil participating and raising money for the school's chosen charity. This year, the Velindre Appeal was supported, and a substantial sum was raised for this worthy cause. It was wonderful to see staff and Year 12 pupils running alongside younger pupils, encouraging and supporting them. This was a true example of the school's values at their best: respect and perseverance, all through the medium of Welsh.

In the end, Illtud House claimed victory, giving Mr Beynon plenty of reason to smile!
















## Llwyddiant TGAU

Gwobrwywyd disgyblion Blwyddyn 11 am eu gwaith caled trwy sicrhau canlyniadau TGAU a BTEC gwych unwaith eto eleni. Cynhaliwyd safonau uchel yn y pynciau craidd gyda thraean o'r flwyddyn (68 o ddisgyblion) yn derbyn A*-A yn Mathemateg a dros 80% o'r disgyblion yn ennill gradd A*-C yn y Gymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth. Roedd hefyd yn braf gweld 80% o ddisgyblion yn sicrhau o leiaf 5 gradd A*-C, a 30 o ddisgyblion yn cael o leiaf 10 gradd A*-A. Yn ogystal, cyflawnodd cyfanswm o 59 (29%) o ddisgyblion 5 neu'n fwy o raddau A* neu A ar draws ystod o bynciau.

Dywedodd Mr Rhys Angell Jones:

"Rydym yn hynod falch o ganlyniadau'r garfan hon o ddisgyblion ac yn ymfalchïo yn y ffaith falch bod cymaint o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi ennill y graddau uchaf eto eleni. Mae hyn yn dangos gwaith caled y disgyblion a'r berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhyngddynt a'r staff sydd wedi ymrwymo'n gyson yn eu hymdrechion i roi'r cyfleoedd gorau i'n disgyblion fod y gorau y gallant fod. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw wrth iddynt ymuno â'n chweched dosbarth bywiog a llwyddiannus"

## Success at GCSE

Year 11 pupils were rewarded for their hard work by once again achieving excellent GCSE and BTEC results this year. High standards were maintained in core subjects, with a third of the year group (68 pupils) receiving A-A in Mathematics, and over 80% of pupils achieving grades A-C in Welsh, English, and Science. It was also pleasing to see that 80% of pupils secured at least 5 A*-C grades, and 30 pupils achieved at least 10 A*-A grades. Additionally, a total of 59 pupils (29%) achieved 5 or more A* or A grades across a range of subjects.


Mr Rhys Angell Jones said:

"We are extremely proud of the results achieved by this cohort of pupils and take great pride in the fact that so many Year 11 pupils have once again earned the highest grades this year. This reflects the pupils' hard work and the positive relationship that exists between them and the staff, who are consistently committed in their efforts to provide the best opportunities for our pupils to be the best they can be. We look forward to working with them as they join our vibrant and successful sixth form."

## Llwyddiant Safon Uwch

Roedd canlyniadau Safon Uwch yr ysgol yn ardderchog eleni. Llwyddodd 97% o'r disgyblion i ennill o leiaf 3 gradd A*-E, gyda 80% o'r graddau yn A*-C, dros 50% yn A*-B, a mwy na chwarter yn A* neu A. Llwyddodd pob disgybl a astudiodd y Fagloriaeth i ennill y cymhwyster. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu dygnwch y disgyblion a gwaith caled y staff. Rydym yn hynod falch o'u llwyddiant, gan gynnwys Stef Maurer ac Aoife Williams sy'n mynd ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen. Rhaid tynnu sylw at gamp aruthrol Stef sydd wedi ennill 6A*. Dymuniadau gorau i'r holl ddisgyblion sy'n ein gadael er mwyn cymryd y cam nesaf yn eu bywydau gyda diolch mawr am eu cyfraniad i'r ysgol dros y saith mlynedd ddiwethaf.

## A Level success



This year's A-Level results were excellent. 97% of students achieved at least three grades A*-E, with 80% of grades at A*-C, over 50% at A*-B, and more than a quarter at A* or A. Every student who studied the Welsh Baccalaureate successfully achieved the qualification. These results reflect the resilience of our students and the hard work of our staff. We are extremely proud of their success, including Stef Maurer and Aoife Williams who are going on to study at Oxford University. Special recognition must go to Stef for her incredible achievement of 6 A*s. Our best wishes go to all the pupils who are leaving us to take the next step in their lives, with heartfelt thanks for their contribution to the school over the past seven years.




VLOG
Y PENNAETH

Gwyliwch ar Instagram a gwefan yr ysgol.

Watch on Instagram and the School website.

@ysgolyfro

www.ygbm.cymru

# Llwyddiannau Chwaraeon yr Haf
## Summer Sport Successes

### Pêl-droed Rhyngwladol

Llongyfarchiadau mawr i Alffi Hughes, Blwyddyn 11 ar gael ei ddewis yng ngharfan o dan 16 oed pêl-droed Cymru. Bu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Gary Speed fis Awst.

### International Football

A huge congratulations to Alffi Hughes, Year 11, on being selected for the Wales Under-16 football squad. He competed in the Gary Speed tournament in August.



### Llwyddiant Golff

Llongyfarchiadau i Rhydian Jones, Blwyddyn 13 sydd wedi cynrychioli Ysgolion Cymru yn erbyn Ysgolion Lloegr yn Llanwern fis Awst. Yn y llun mae Rhydian Newydd gael 'hole in one' ar y rownd ymarfer – tipyn o gamp!

### Golff success

Congratulations to Rhydian Jones, Year 13, who represented Welsh Schools against English Schools in Llanwern this August. In the photo, Rhydian has just achieved a 'hole in one' during the practice round – quite an achievement!



### Carfan Rygbi Rhanbarth Caerdydd

Llongyfarchiadau mawr i Ffredi Easterby, Liam Williams a Jack Evans ar gael eu dewis i garfan dan 18 Rygbi Caerdydd. Pob dymuniad da gyda'r tymor, fechgyn.

### Cardiff Regional Rugby Squad

Congratulations to Ffredi Easterby, Liam Williams, and Jack Evans on being selected for the Cardiff Under-18 Rugby squad. Best wishes for the season, boys.

### Tymor y traws gwlad

Mae tymor y traws gwald bellach yn ei anterth. Cawsom ddechreuad arbennig gyda digwyddiad ysgol gyfan ar ddydd Gwener 19eg o Fedi ar gaeau'r ysgol. Daeth Blynyddoedd 7-10 ynghyd i redeg fesul blwyddyn a dyma oedd dyfalbarhad ar waith. Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ymdrechion ein holl ddisgyblion. Llongyfarchiadau i'n Pencampwyr blwyddyn ac I'r timau bechgyn a merched sydd nawr yn ein cynrychioli yng Nghaerdydd a'r Fro. Pob lwc!

### Cross-country Season

The cross-country season is now in full swing. We had a fantastic start with a whole-school event on Friday, 19th September on the school fields. Years 7–10 came together to run, and this was perseverance in action. We are very proud of all our pupils' efforts. Congratulations to our year champions and to the boys' and girls' teams who are now representing us in Cardiff and the Vale. Good luck!





**@ysgolyfro**

**www.ygbm.cymru**

Am y newyddion diweddaraf, gwyliwch vlog y pennaeth ar Instagram a gwefan yr ysgol.

For the latest news, watch the heads vlog on Instagram and the school website.